



Y Grŵp Trawsbleidiol ar Ogledd Cymru Cross Party Group for North Wales

Nodyn Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Ogledd Cymru yn Senedd Cymru

Dydd Gwener 13 Tachwedd 2020

Yn bresennol

Llyr Gruffydd AS (yn y Gadair), Mark Isherwood AS, Janet Finch Saunders AS (Rhan), Siân Gwenllian AS, Mandy Jones AS, Clare Eno (Swyddfa Mandy Jones)

Hywel Williams AS, Rob Roberts AS, Simon Baynes AS, Mark Tami AS (Rhan).

Stephen Jones (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) Ysgrifennydd a Chynrychiolydd Noddwr, yn bresennol.

Gwenllian Roberts a Bryn Richards, Llywodraeth Cymru

Katie Summerfield

Siaradwyr:

Mark Polin, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC)

Gill Harris, Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro BIPBC

Ed Sherriff, Llywodraeth Cymru (Tîm Trefniadau Pontio'r UE)

Tim Peppin, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC), Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy

1. Croeso gan y Cadeirydd

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod.

2. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd ar 3 Gorffennaf 2020

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir ac nid oedd unrhyw faterion yn codi.

3. Blaenoriaethau BIPBC

Cafwyd cyflwyniad byr gan Mark Polin, Cadeirydd BIPBC:

Ymdopodd BIPBC yn dda â thon gyntaf Covid-19 (yn gymharol). Er hynny, roedd yn gyfnod anodd a heriol iawn.

Daeth yr argyfwng â phobl ynghyd, a alluogodd arweinyddiaeth dda, adnewyddu partneriaeth glinigol ac ymdeimlad cryf o bwrpas.

Roedd heriau'n codi i staff o ganlyniad i straen, absenoldeb, rhai marwolaethau ac oriau hir, ond ar y cyfan roedd y staff yn ddewr, yn ymroddedig, yn gadarn ac yn hyderus yn eu hymateb.

Gweithiodd aelodau'r bwrdd ac uwch-arweinwyr yn galed a gwnaethant ymweld â llawer o ysbytai a lleoliadau gofal i roi cefnogaeth i staff rheng flaen.

Mae holl weithlu BIPBC yn teimlo'n flinedig oherwydd pwysau estynedig Covid-19 a'r galw parhaus o ddydd i ddydd.

Daeth partneriaid ynghyd yn dda iawn a helpu i gefnogi ymateb y BIPBC. Fe wnaethant hefyd gynnal eu gwasanaethau a'u cyfrifoldebau eu hunain yn hyderus trwy'r pandemig.

Mae agor yr ysbytai maes yn enghraifft wych o weithio mewn partneriaeth. Mae Ysbyty Maes Glannau Dyfrdwy yn derbyn cleifion.

Gweithiodd y strwythurau brys mewn deddfwriaeth argyfyngau sifil yn dda gyda gwaith partneriaeth da yn y grwpiau cydlynu strategol (GCS) a'r grwpiau cydlynu adferiad (GCA).

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi bod yn gweithio ar ymateb traws-sector i bwysau gaeaf, gan geisio sicrhau bod ysbytai a gwasanaethau gofal cymdeithasol yn barod ar gyfer y gaeaf ynghyd ag ail don Covid-19.

Bellach, paratoi ar gyfer pwysau'r gaeaf yw prif flaenoriaeth BIPBC.

Nid all ysbytai Lloegr gymryd cleifion o Gymru mor hawdd oherwydd pwysau lleol, gan gynnwys achosion Covid-19. Mae contractau Lloegr ar gyfer gofal wedi'i drefnu wedi'u cyfyngu'n sylweddol o ran gweithgaredd. Felly, mae rhestrau aros BIPBC ar gyfer triniaeth ddewisol yn tyfu. Mae pwysau ar adrannau brys yn dychwelyd i lefelau arferol ar ôl cwmp cychwynnol ar ddechrau pandemig Covid-19. Adran frys Ysbyty Glan Clwyd sydd o dan y straen mwyaf.

Mae'r Bwrdd yn bwriadu ymateb i'r newid sylweddol yn ei gapasti i drin cleifion dewisol ar ôl i ysbytai Lloegr fod ar gau i gleifion BIPBC. Mae achos amlinellol ar gyfer dwy ganolfan ddiagnostig a thriniaeth wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru, sy'n agored i'r cynnig. Cost cyfalaf amcangyfrifedig gyfredol y canolfannau yw oddeutu £112 miliwn, sy'n eu gwneud yn ymdrech sylweddol. Fodd bynnag, byddai'r canolfannau hyn yn cynnig ateb cynaliadwy ar gyfer gofal wedi'i gynllunio ar gyfer y rhanbarth.

Mae monitro'r pandemig wedi galluogi gwell dealltwriaeth o'r galw ac adnoddau yn y rhanbarth gan BIPBC a'r Llywodraeth.

Nod y ddwy ganolfan ddiagnostig a thriniaeth newydd fydd adfer rhestrau aros a chynyddu'r capasiti i ddarparu llawdriniaeth ddewisol/wedi'i drefnu. Dylent hefyd wella llif cleifion a lleihau'r pwysau ar adrannau brys.

Ochr yn ochr â hyn, bydd BIPBC yn pennu datrysiad cynaliadwy i wella amseroedd aros adrannau brys a llif cleifion ehangach.

Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod pecyn cymorth ariannol ar gael a fydd yn gwrthbwysu £40 miliwn o ddiffyg BIPBC. Yn ogystal, bydd £42 miliwn arall ar gael ar gyfer pob un o'r tair blynedd nesaf i gefnogi trawsnewid a gwella gwasanaethau.

Mae effaith wirioneddol yr arian cymorth diffyg yn cael ei ystyried ac mae cynlluniau'n cael eu datblygu o ran defnyddio'r arian ychwanegol.

Blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi a gwella fydd iechyd meddwl.

Mae BIPBC yn symud ymlaen. Daeth y pecyn cymorth ariannol o ddeialog gyda Llywodraeth Cymru, sydd bellach â'r hyder i fuddsoddi ymhellach yn y Bwrdd.

Mae achosion busnes ar gyfer buddsoddi yn Ysbyty Brenhinol Alexandra (Y Rhyl) a llawdriniaeth â chymorth robot yn Ysbyty Gwynedd ar fin cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd. Mae cynnig llawdriniaeth â chymorth robot yn dangos ymrwymiad BIPBC i Ysbyty Gwynedd. Bydd cit blaengar mewn cyfleusterau da yn cynorthwyo i recriwtio meddygon a nysys.

Mae'r Bwrdd wrthi'n ailddatblygu Uned Ablett. Mae'r ymgynghoriad ar y datblygiad arfaethedig wedi cychwyn ynghyd â chais am ganiatâd cynllunio.

Mae'r Bwrdd bellach yn symud ymlaen â sawl datblygiad a buddsoddiad cadarnhaol. Mae angen strategaeth gydlynol i "lapio o gwmpas" y buddsoddiadau arfaethedig. Felly, mae BIPBC bellach yn trafod cynhyrchu strategaeth gydlynol a fydd yn mapio cynlluniau ar gyfer y dyfodol. Bydd hyn yn ceisio diffinio llwybrau clinigol a chynnig llwyfannau TG ac ystâd i alluogi'r llwybrau a ddewiswyd.

Bydd angen i'r Bwrdd fynd i'r afael â ffurfwedd y gwasanaeth a ddarperir ar y tri safle aciwt ac mewn mannau eraill a'r hyn sydd i'w ddarparu ym mhle. Bydd angen buddsoddiad cyfalaf ar BIPBC i sicrhau newid ac ail-ffurfweddu'r ystâd i gefnogi'r llwybrau clinigol y mae'n eu datblygu.

Mae Ysbyty Wrecsam-Maelor, sydd wedi dyddio ac wedi'i ffurfweddu'n wael i ddelio â gofynion presennol a newydd, yn flaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad o hyd. Mae angen llawer o fuddsoddiad yno.

Mae'r prif swyddog gweithredol newydd yn cychwyn ym mis Ionawr 2021. Bydd Jo Whitehead yn ceisio dysgu Cymraeg ac yn dilyn cyrsiau trochi dysgu Cymraeg ar gyfer uwch arweinwyr. Mae'r cadeirydd a'r prif swyddog gweithredol newydd mewn cysylltiad rheolaidd.

Mae BIPBC yn recriwtio eto ar gyfer cyfarwyddwyr cyllid, iechyd meddwl a meddygol newydd. Mae'r farchnad recriwtio yn anodd gyda dim llawer o bobl yn barod i symud yng nghanol pandemig.

Datblygiad calonogol a fydd yn cynorthwyo gyda recriwtio yw ymateb cadarnhaol Llywodraeth Cymru i ysgol feddygol yng ngogledd Cymru a gynigiwyd gan y BIPBC a Phrifysgol Bangor. Mae BIPBC a'r Brifysgol yn cydweithio'n agos ac mae LIC am sefydlu grŵp tasg a gorffen i ystyried yr achos.

Daw'r ysgol feddygol arfaethedig hefyd â buddion economaidd-gymdeithasol sylweddol yn ogystal â buddion recriwtio meddygol ar gyfer gogledd Cymru.

Cafwyd cyflwyniad byr gan Gill Harris, Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro BIPBC: -

Mae gan y BIPBC lawer o heriau. Wrth fframio gwelliant, mae BIPBC yn rhoi diogelwch yn gyntaf: -

- Cleifion
- Staff

- Iechyd meddwl
- Atal

Mae atal wedi bod yn faes perfformiad da gyda dros 110,000 o bobl 65+ oed wedi'u brechu rhag y fflw. Mae BIPBC yn paratoi ar gyfer cyflwyno brechiadau Covid-19.

Mae 121 o achosion Covid-19 yn ysbytai BIPBC gyda 4 mewn unedau gofal brys. Felly, gall BIPBC barhau â gofal wedi'i gynllunio. Mae'n asesu opsiynau ar gyfer cyfleusterau (modiwlaid) dros dro ar gyfer diagnosis a thriniaeth (gan gynnwys llawdriniaeth).

Mae gweithio mewn partneriaeth wedi bod yn gadarnhaol, yn enwedig gydag awdurdodau lleol. Mae BIPBC yn cefnogi cartrefi gofal sydd ar gau (i breswylwyr newydd) oherwydd Covid-19.

Mae Ysbyty Maes Glannau Dyfrdwy wedi'i agor ar gyfer achosion Covid-19. Mae mwyafrif yr achosion Covid-19 yng ngogledd-ddwyrain Cymru.

Ni fydd unrhyw gleifion Covid-19 yn symud o'r dwyrain i'r gorllewin (na'r ffordd arall) yn y rhanbarth.

Mae'r Bwrdd yn ymateb i Covid-19 ac yn cyflawni ei strategaeth a'i wasanaethau "parhaus".

Mae 35 llwybr i ofal trwy ofal sylfaenol ac eilaidd. Bydd rhaglen "Unwaith ar gyfer Gogledd Cymru" sy'n defnyddio platfform digidol i geisio symleiddio llwybrau gofal.

Mae BIPBC yn wynebu heriau ar draws ei adrannau brys, gyda phresenoldeb yn cynyddu. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i gynnal momentwm darparu gofal wedi'i gynllunio.

Mae'r her o ateb galw brys a darparu gofal wedi'i gynllunio yn golygu bod paratoi ar gyfer pwysau'r gaeaf yn brif flaenoriaeth.

Mae'r cyllid strategol gan Lywodraeth Cymru wedi helpu'n aruthrol.

Mae yna lawer o bwysau ar y gweithlu ac mae llawer ohonynt yn symud o gwmpas llawer er mwyn cynnal gwasanaethau: -

- profi olrhain diogelu
- brechu torfol
- Covid-19

Mae lleddfu'r galw oherwydd Covid-19 wedi galluogi canolbwyntio ar ofal wedi'i drefnu a datblygu cynlluniau ar gyfer canolfannau diagnostig a thriniaeth.

Mae clinigwyr bellach yn gweithio'n fwy cadarnhaol, budd sylweddol arall o'r argyfwng.

Cwestiynau a Thrafodaeth

Roedd pob cyfraniad a wnaed gan gynrychiolwyr etholedig yn canmol ymateb y Bwrdd a'i weithlu i argyfwng Covid-19. Roedd pawb wedi gweithio'n galed ac wedi gweithio gyda'i gilblyd fel tîm i wasanaethu'r cyhoedd mewn cyfnod o argyfwng. Cafwyd canmoliaeth

arbennig i weithwyr rheng flaen a oedd wedi cymryd risgiau ac wedi gweithio mor galed i ofalu am eu cleifion.

Gofynnodd Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol i'w canmoliaeth a'u diolch gael eu cyfleu i weithlu BIPBC.

Gofynnodd Rob Roberts AS:

- sawl canolfan ddiagnostig a thriniaeth fydd ac ymhle y byddant wedi'u lleoli?
- pa mor gynaliadwy yw maint cynyddol y meddygfeydd teulu sy'n weddill (1800 - 2000) wrth i rai meddygfeydd ddod â'u contractau i ben a chau fel busnesau annibynnol?
- beth yw dull gweithredu'r Bwrdd ar gyfer ysbytai cymunedol?

Dywedodd Rob Robert AS y dywedwyd wrtho fod gan y Bwrdd bolisi o ddim ysbytai cymuned newydd ond mewn rhai ardaloedd, maent yn cael eu hadnewyddu a'u huwchraddio.

Ymateb

Mae Ysbyty Brenhinol Alexandra yn y Rhyl yn brosiect hirsefydlog lle mae'n hanfodol cyflwyno'r achos busnes.

Mae gofal sylfaenol yn her genedlaethol gyda recriwtio meddygon teulu ac mae'n anodd iawn cadw meddygfeydd teulu ar hyn o bryd. Mae BIPBC yn ymwybodol o ba mor fregus yw gofal sylfaenol ac yn ceisio datblygu academi gofal sylfaenol a fydd yn: -

- datblygu ffyrdd o weithio arloesol yn seiliedig ar dimau amlddisgyblaethol sy'n gweithio o amgylch llai o feddygon teulu e.e. uwch-nyrsys ac ati.
- hyfforddi a recriwtio meddygon teulu newydd i feddygfeydd yng ngogledd Cymru

Bydd y canolfannau triniaeth a diagnostig arfaethedig yn helpu gyda recriwtio a chadw staff. Mae angen iddynt fod yn y lle iawn, ond nid yw eu lleoliadau wedi'u cadarnhau eto.

Dywedodd Simon Baynes AS ei fod: -

- yn poeni am feddygfeydd yn Wrecsam, lle mae cau yn gwneud y meddygfeydd sy'n weddill yn fwy ac yn anoddach i'w rhedeg
- yn falch o weld buddsoddiad a chynnydd cadarnhaol wrth fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r bwrdd iechyd.

Ymrwymodd Mark Polin a Gill Harris i sgysiau "oddi-ar-lein" gyda'r ASau ynghylch eu pryderon gyda gofal sylfaenol.

Dywedodd Mandy Jones AS, ar ôl 5 mlynedd mewn mesurau arbennig, nad yw'n glir o hyd sut y bydd BIPBC yn eu gadael. Yna gofynnodd sut y bydd BIPBC yn delio â phwysau'r gaeaf a'r ôl-groniad mewn gofal wedi'i gynllunio.

Ymrwymodd Gill Harris i friffio Mandy Jones mewn cyfarfod un-i-un.

Cafwyd crynodeb byr o sut y bydd y canolfannau diagnostig a thriniaeth arfaethedig yn galluogi mwy o ofal wedi'i drefnu trwy gynyddu capasiti theatrau llawdriniaethau.

Nid oes gan ogledd Cymru bellach fynediad at ofod theatr llawdriniaethau yn ysbytai Lloegr ac nid oes gan y gogledd lawer o gapasiti yn y sector preifat chwaith, felly adeiladu capasiti ychwanegol (trwy ganolfannau diagnostig a thriniaeth) yw'r unig ffordd ymlaen.

Ychwanegodd Mark Polin na fydd BIPBC yn derbyn rhestrau aros sy'n tyfu ar gyfer llawfeddygaeth ddewisol / gofal wedi'i gynllunio.

Roedd tynnu gwasanaeth ysbytai Lloegr yn ôl wedi dod â swyddogion y Llywodraeth i'r ddadl ar sut i leihau rhestrau aros a oedd wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer BIPBC (yng Nghymru) cyn Covid-19. Arweiniodd hyn at swyddogion y Llywodraeth yn cael gwell dealltwriaeth o'r heriau sy'n wynebu BIPBC a'r cytundeb i fuddsoddi mewn cyfleusterau diagnostig a thriniaeth.

Y sefyllfa nawr yw bod gan BIPBC ddatrysiad ymarferol i heriau gofal wedi'i gynllunio. Mae'n hanfodol bellach bod y rhanbarth yn sefyll gyda'i gilydd i helpu i sicrhau'r cyfalaf gan Lywodraeth Cymru i roi'r datrysiad ar waith. Mae hyn yn bwysig gan fod cystadleuaeth am adnoddau cyfalaf drwy'r system iechyd.

O ran mesurau arbennig, bydd gwella perfformiad ar ofal wedi'i gynllunio yn helpu hynny. Fodd bynnag, y cyngor gorau ar gyfer y cyfarfod hwn yw y dylid rhyddhau sawl maes o fesurau arbennig lle gwnaed gwelliannau a llaw mae perfformiad BIPBC yn debyg i gyfartaledd Cymru (neu'n well).

Mae'r label mesurau arbennig yn effeithio ar recriwtio ac mae'n cael effaith ar berthnasoedd partneriaethau hefyd.

Mae'n briodol cadw mesurau arbennig BIPBC ar waith ar gyfer iechyd meddwl. Ar gyfer pob maes arall, barn y Bwrdd nawr yw y gellid codi mesurau arbennig.

Dywedodd Mandy Jones y bydd rhai pobl yn gwrthod brechiadau. A fydd sancsiynau ar bobl o'r fath?

Ymatebodd Gill Harris ar frechu torfol: Bydd Llywodraeth Cymru yn datblygu set o flaenoriaethau y bydd BIPBC yn eu cyflawni. Mae'n debygol mai'r henoed a'r rhai â chyflyrau meddygol fydd y cyntaf i gael brechiadau ar gyfer Covid-19.

Soniodd Hywel Williams am ei drafodaethau â Phrifysgol Bangor lle mae swyddi'n cael eu colli. Mae'n poeni am effaith colli'r swyddi hyn ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a allai effeithio ar gyrsiau nyrsio a gwaith cymdeithasol. Mynegodd bryder hefyd am effaith Covid-19 ar iechyd meddwl pobl ifanc.

Rhoddodd Mark Polin a Gill Harris sicrwydd bod BIPBC wedi ymrwymo i ddarpariaeth ddwyieithog a bod y Bwrdd yn gweithio gyda Phrifysgol Bangor i sicrhau y bydd y ddarpariaeth bresennol a'r ddarpariaeth yn y dyfodol gan yr Ysgol Feddygol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae BIPBC yn gofyn am gyflenwad da o staff meddygol dwyieithog ar gyfer gwasanaethau yng ngogledd Cymru.

Mae BIPBC yn anelu at gynyddu darpariaeth ddwyieithog ac mae ganddo ymrwymiad strategol, hirdymor i Safonau'r Gymraeg.

Mae BIPBC yn canolbwyntio llawer o ymdrech ar wella gwasanaethau iechyd meddwl ar gyfer pob grŵp oedran. Y flaenoriaeth yw sicrhau bod gwasanaethau ymyrraeth gynnar ar gael.

Mae BIPBC yn ymwybodol o effaith Covid-19 ac mae'n adolygu ei strategaeth iechyd meddwl a sut mae gwasanaethau iechyd meddwl yn cael eu darparu. Mae'r cyngor iechyd cymunedol yn cefnogi'r adolygiad o'r strategaeth iechyd meddwl ac yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu at y diben hwnnw.

Mynegodd Janet Finch-Saunders AS bryder ynghylch gwasanaethau deintyddol. Mae dau bractis deintyddol wedi cau yn ei hetholaeth ac mae'n broblem fawr yn lleol, un y mae'n ei godi gyda'r Llywodraeth.

Addawodd Mark Polin ddarparu briff ar wasanaethau deintyddol a ddarperir i Darren Millar AS i Janet Finch-Saunders AS.

Achosir y broblem gan fod BUPA yn lleihau ei bresenoldeb mewn deintyddiaeth. Mae BIPBC yn edrych ar sut i ailddosbarthu rhestrau cleifion a sut i ddod â deintyddion newydd i mewn.

Dywedodd Janet Finch-Saunders AS fod rheoleiddio deintyddiaeth yng Nghymru yn ystod Covid-19 wedi bod yn wael ac yn niweidiol i gynnal gwasanaethau.

Gofynnodd Clare Eno beth yw nifer marwolaethau o'r fflw o'i gymharu â Covid-19.

Ymrwymodd Gill Harris i ddarparu'r ffigurau. Mae ffigurau fflw yn cael eu cadw ar wahân i Covid-19 ac mae brechu rhag fflw yn flaenoriaeth i BIPBC.

Dywedodd Mark Isherwood y canlynol: -

- roedd wedi siarad â chlinigydd a ddywedodd bod nifer cleifion Covid-19 yn cynyddu ond bod y galw am ofal critigol yn gostwng.
- mae etholwyr yn ysgrifennu ato yn cwyno bod Covid-19 yn cymryd gormod o gapasiti a bod yr argyfwng y pandemig yn cael ei orliwio.
- tra bod Ysbyty Maes Glannau Dyfrdwy wedi agor mae Mark yn cael e-byst yn dweud bod y defnydd a wneir ohono yn isel.
- mae llawer o lobïau diddordeb arbennig yn cysylltu ag Aelodau o'r Senedd i gwyno bod Covid-19 wedi achosi marwolaethau drwy darfu ar waith ar ganser, epilepsi, salwch yr ysgyfaint a chlefyd y galon ac ati. Mae elusennau sy'n cynrychioli'r grwpiau hyn, ynghyd â chlinigwyr arbenigol a'u cyrff proffesiynol, yn poeni am fynediad eu "grŵp cleientiaid" at wasanaethau'r GIG yn ystod y pandemig.

Yn y cyd-destun hwnnw beth mae BIPBC yn ei wneud i gyfleu difrifoldeb ail don Covid-19?

Ymatebodd Mark Polin a Gill Harris eu bod yn cydnabod bod heriau wrth gyfathrebu'n effeithiol gyda'r cymunedau niferus ac amrywiol (grwpiau cyffredinol, lleol/daearyddol, sectoraidd, proffesiynol, elusennol a defnyddwyr gwasanaeth). Fe wnaethant wahodd

awgrymiadau i'w helpu i alluogi cyfathrebu mwy effeithiol gyda'r gymuned a grwpiau defnyddwyr gwasanaeth.

Dywedodd Gill Harris fod BIPBC: -

- wedi ceisio defnyddio staff rheng flaen i rannu negeseuon allweddol gyda chleifion.
- yn ymwybodol o effaith Covid-19 ar wasanaethau o ddydd i ddydd (gofal heb ei drefnu ac wedi'i drefnu).

Daeth Llyr Gruffydd â'r drafodaeth i ben drwy ofyn i Gill Harris a Mark Polin wneud y canlynol: -

- diolch i staff am eu gwaith caled yn ystod y pandemig ar ran aelodau etholedig.
- gadael i Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol wybod pa gefnogaeth sydd ei angen ar BIPBC i ddadlau dros fuddsoddiad yn unigol ac ar y cyd.

4. Briffio Brexit

Rhoddodd Ed Sherriff (Tîm Trefniadau Pontio'r UE Llywodraeth Cymru) a Tim Peppin (Cyfarwyddwr Adfywio a Datblygu Cynaliadwy gyda CLILC) gyflwyniad ar effeithiau posibl Brexit ar economi gogledd Cymru.

Dywedodd Ed Sherriff fod trafodaethau Brexit dros gytundeb masnach yn cyrraedd cam tyngedfennol. Mae blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer cytundeb masnach yn wahanol iawn i rai Llywodraeth y DU, lle mae Llywodraeth Cymru yn awyddus iawn i sicrhau cytundeb sy'n osgoi tariffau. Blaenoriaethau LIC yw: -

- sicrhau cytundeb masnach sy'n galluogi perthynas fasnachu agos yn seiliedig ar fasnach ddi-dariff mewn nwyddau
- cadw amddiffyniadau dros hawliau gweithwyr a'r amgylchedd - cytuno i bob pwrpas i gynnal cae chwarae gwastad rhwng y DU a marchnad sengl yr UE (gan alinio rheolau cymorth gwladwriaethol yr UE).
- parhau'n rhan o raglenni'r UE fel Erasmus, Horizon a chydweithrediad ehangach mewn meysydd fel plismona a diogelwch

Nid oes unrhyw sefyllfa y cytunwyd arni ar y cyd yn y DU rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Llywodraeth y DU sy'n hysbysu'r gweddill. Nid yw'n cynnwys y gweinyddiaethau datganoledig ym mhroses cytundeb masnach Brexit. Mae hyn yn peri pryder gan fod rhai materion y mae Llywodraeth y DU yn negodi arnynt wedi'u datganoli.

Mae'r meysydd sydd heb eu datrys yn cynnwys: -

- cae chwarae gwastad y farchnad sengl
- cwotâu pysgota a mynediad at ddyfroedd

Mae'r UE yn dal y berthynas fasnachu ehangach yn wystl er mwyn ceisio cael mynediad at bysgodfeydd y DU.

Mae yna lawer o ansicrwydd.

Mae masnach ddiffrithiant yn hanfodol i'r diwydiannau awyrofod a modurol yn y DU (sy'n bwysig iawn i Gymru).

Gallai tariffau a rheoliadau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau arwain at amodau masnachu heriol iawn ar gyfer diwydiannau gweithgynhyrchu yng Nghymru, fel y sectorau awyrfod a modurol.

Mae cytundebau gwasanaethau a chyllid yn gynyddol bwysig i gwmnïau gweithgynhyrchu. Mae gwasanaethau a chyllid sy'n gysylltiedig â nwyddau a weithgynhyrchir yn debygol o fod y tu allan i unrhyw gytundeb masnach.

Mae Llywodraeth Cymru yn poeni am barodrwydd busnesau o ystyried natur “munud olaf” y cytundeb a'r potensial am “ddim cytundeb”.

Mae LIC wedi gwneud gwaith asesu risg a lliniaru ar gyflenwadau bwyd a meddygaeth.

Mae Covid-19 wedi rhoi profiad da am ddsbarthu bwyd, sydd wedi bod o gymorth i gynllunio ar gyfer Brexit.

Nid yw LIC yn credu bod busnesau Cymru wedi paratoi llawer ar gyfer perthynas fasnachu newydd. Felly mae LIC yn rhagweld amser prysur i wasanaethau cymorth busnes unwaith y bydd y DU a'r UE wedi pennu eu perthynas wrth i gwmnïau geisio cyngor a chefnogaeth ar gyfer cynnal eu perthnasoedd masnachu.

Mae LIC yn cefnogi'r broses ar gyfer cofrestru gwladolion yr UE sy'n bresennol yng Nghymru gyda'r bwriad o'u hannog i aros a pharhau i gyfrannu at economi Cymru.

Mae yna faterion gweithredol heb eu datrys o hyd ynglŷn â phorthladd Caergybi (gwiriadau tollau a phrosesau mewnfudo / rheoli ffiniau)

Mae protocol Gogledd Iwerddon yn bryder i Lywodraeth Cymru oherwydd gallai arwain at gynnydd yn nifer y nwyddau a gludir rhwng Iwerddon a'r DU trwy Belffast/Lerpwl ar draul llwybr Dulyn/Caergybi, a thrwy hynny arwain at golli swyddi yng Nghaergybi.

Mae Cymru yn elwa o £700 miliwn o ariannu strwythurol yr UE bob blwyddyn. Mae hyn yn llifo trwy WEFO ac yn cael ei ddsbarthu i lawer o bartneriaid, gan gynnwys awdurdodau lleol. Mae wedi ariannu llawer o gymorth busnes yn ogystal â buddsoddiad mewn seilwaith.

Mae'r broses amnewid ar gyfer cronfeydd strwythurol yn parhau i fod yn aneglur heb unrhyw fanylion ar gael ar y gronfa ffyniant gyffredin arfaethedig.

Mae rhaglenni'r UE, HORIZON ac ERASMUS, wedi bod o fudd sylweddol i Gymru a hoffai'r Llywodraeth barhau'n aelod o'r cynlluniau hynny.

Cyhoeddir “Cynllun Gweithredu Diwedd y Cyfnod Pontio” Llywodraeth Cymru yn fuan. [CYNLLUN GWEITHREDU DIWEDD Y CYFNOD PONTIO 2020 \(llyw.cymru\)](#)

Cafwyd cyflwyniad byr gan Tim Peppin, CLILC:

Mae CLILC wedi rhedeg Rhaglen Cymorth Cyfnod Pontio'r UE o fewn llywodraeth leol wedi'i seilio ar ymchwil gan Grant Thornton. Mae hyn wedi denu cyllid gan LIC.

Mae pob awdurdod lleol wedi cynnal asesiad risg ac wedi cynhyrchu cynlluniau wrth gefn wedi'u hanelu at senario "dim cytundeb". Penodwyd cydlynnydd ym mhob awdurdod lleol i weithio drwy becyn cymorth Brexit a baratowyd gan Grant Thornton ar gyfer risgiau / cyfleoedd sy'n ymwneud â'r canlynol:

- trefniant/llywodraethiant cynghorau
- darparu gwasanaethau'r cyngor
- rôl arweinyddiaeth gymunedol y cyngor (effeithiau economaidd a chymdeithasol ehangach)

Roedd gan y cydlynwyr hyn rôl hefyd yn cydlynu ymateb corfforaethol i Covid-19.

Ystyriaethau allweddol fu'r effaith ar y canlynol: -

- gweithlu
- prisiau meddyginiaethau / cyflenwadau meddygol
- economi (Covid a Brexit)

Roedd Grant Thornton hefyd wedi cynnal asesiad effaith economaidd. Cyhoeddir yr adroddiad yn fuan ond y penawdau yw: -

- Cymru yw'r rhanbarth yn y DU sy'n dibynnu fwyaf ar fasnachu gyda'r UE
- gwerth masnach rhwng yr UE â Chymru yw £4 biliwn
- mae'r diwydiannau awyrofod a modur yn hynod o gydgyssylltiol â'r UE fel allforwyr
- mae gogledd-ddwyrain Cymru (Sir y Fflint a Wrecsam) yn ddibynnol iawn ar fasnach gyda'r UE gyda chwarter y gweithlu yno'n dibynnu ar weithgynhyrchu. Gallai senario "dim cytundeb" olygu gostyngiad mewn allforion o 19%, a chytundeb masnach "denau" yn golygu gostyngiad o 6%, gyda 27,000 ac 8,000 o swyddi'n cael eu colli, yn y drefn honno.

Mae amaethyddiaeth yn rhan sylweddol o'r economïau lleol mewn ardaloedd yng Nghymru a fydd, gyda chanlyniad "dim cytundeb masnach", yn agored i dariffau uchel ar allforion.

Bydd hyn nid yn unig yn taro'r gymuned ffermio ond hefyd y gadwyn gyflenwi i amaethyddiaeth (hadau, offer, gwrtaith, marchnadoedd/arwerthwyr anifeiliaid ac ati).

Mae ymchwil ansoddol gyda busnesau yn awgrymu diffyg parodrwydd cyffredinol oherwydd: -

- strategaeth aros-i-weld sy'n deillio o ansicrwydd a phrofiad blaenorol o newidiadau mynych mewn dulliau gweithredu ar lefel Llywodraeth.
- bod busnesau domestig o'r farn na fydd yn effeithio arnynt os na fyddant yn allforio i'r UE. Yn ymarferol dyma'r dull gweithredu anghywir oherwydd gallai prisiau, cyflenwyr a rheoliadau ar gyfer y busnes gael eu heffeithio ar ddiwedd y cyfnod pontio.

Bydd ymateb gan fusnesau pan fyddant yn wynebu trefniadau newydd gan ddechrau o 1 Ionawr a beth mae'r rhain yn ei olygu (o ganlyniad i'r berthynas fasnachu a gofynion busnes newydd eraill sy'n dod i'r amlwg yn gynnar y flwyddyn nesaf). Mae angen i Lywodraethau weithio gyda busnesau i'w paratoi ar gyfer yr hyn sydd o'u blaenau.

Bydd Covid -19 yn cael effaith hefyd. Mae wedi lleihau'r galw ar gyfer y rhan fwyaf o fusnesau ac wedi rhoi mwy o bwysau ar adnoddau, gan dynnu oddi sylw oddi wrth baratoi ar gyfer diwedd y cyfnod pontio.

Yn dibynnu ar y cytundeb (neu ddim cytundeb) a fydd rhwng yr UE a Llywodraeth y DU, gallai fod dryswch economaidd a chythrwfl. Bydd ansicrwydd parhaus ac effaith Covid-19 yn ychwanegu straen ychwanegol at effaith economaidd Brexit.

Trafodaeth

Dywedodd Clare Eno fod dyfrodd Cymru wedi cael eu gorbysgota, gyda fflydoedd o'r UE yn gwneud llawer o'r niwed i bysgodfeydd yn nyfroedd Cymru a'r DU. Byddai defnyddio Brexit i leihau gorbysgota yn dda i Gymru a'r DU.

Dywedodd Hywel Williams AS mai'r materion "mawr" iddo ef oedd: -

- amaethyddiaeth
- cronfa ffyniant gyffredin (CFFG)
- porthladd Caergybi

Mae llawer o fwyd ar gyfer Gogledd Iwerddon (archfarchnadoedd) yn teithio drwy Gaergybi. Nid yw lleoliad y manau tollau wedi'u pennu, ac mae pryder yn lleol y bydd yn rhaid i lorïau deithio i Warrington. Mae yna bryderon o hyd a fydd digon o le i lorïau "bentyrru".

O ran amaethyddiaeth, a yw'r arian ar y lefelau cymhorthdal cyfredol wedi'i warantu (gan LIDU) ai peidio?

Sut fydd y CFFG yn cael ei dosbarthu? A fydd hynny drwy gynigion cystadleuol, fformiwla Barnett neu fel nawr gyda chwyddiant?

Ymatebodd Ed Sherriff fod gwahaniaeth barn sylweddol rhwng yr UE a LIDU ynghylch pysgodfeydd a chwotâu a mynediad ar gyfer fflydoedd yr UE.

Mae angen cyfaddawdu a thros amser bydd mynediad tramor at bysgodfeydd y DU yn dirwyn i ben yn raddol.

O ran CFFG, mae Bil y farchnad fewnol yn nodi y bydd LIDU yn defnyddio'r cronfeydd strwythurol yn wahanol pan fyddant yn cyflwyno'r CFFG. Fodd bynnag, nid oes eglurder o ran sut y bydd y CFFG yn gweithio na'n cael ei dosbarthu.

Bydd Llywodraeth Cymru yn chwilio am £700 miliwn y flwyddyn i gymryd lle'r cyllid y byddai Cymru yn ei ddisgwyl yn rhesymol.

Dylai rheoli traffig ym mhorthladd Caergybi fod yn iawn. Bydd gwiriadau tollau yn Warrington rhwng Ionawr a Gorffennaf 2021 i ddechrau. Y gobaith yw y bydd datrysiad tymor hir sy'n agosach at y porthladd ei hun.

Dywedodd Tim Peppin fod fframwaith buddsoddi rhanbarthol LIC yn rhagdybio datganoli cronfeydd strwythurol (yr UE gynt) i Gymru.

Dywedodd Llyr Gruffydd AS fod angen capasiti milfeddygol digonol ar y ffin i wirio anifeiliaid.

Dyweddodd Rob Roberts AS a Mandy Jones AS fod Brexit yn digwydd. Roedd y cyfan a glywyd yn ystod y cyflwyniadau yn negyddol am Brexit. Rhaid bod rhai pethau cadarnhaol yn sgil Brexit. Pa bethau cadarnhaol sydd yna?

Dyweddodd Tim Peppin y gallai fod rhywfaint o fuddsoddiad mewnol i Gymru i wasanaethu marchnad y DU.

Dyweddodd Ed Sherriff y gallai cytundebau masnach trydedd gwlad esgor ar rai buddion. Mae'r gweinyddiaethau datganoledig yn ymwneud â gwaith LIDU i sicrhau cytundebau masnach newydd.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n galed i farchnata Cymru i'r byd. Mae LIC hefyd yn gweld marchnad y DU yn bwysig iawn ar gyfer y dyfodol.

5. Unrhyw Fusnes Arall

Cytunwyd i gynnal cyfarfod arbennig i glywed am gynnydd Bargen Twf y Gogledd y bwriedir ei gymeradwyo ar 17 Rhagfyr 2020.

Gwahoddir y Cynghorydd Dyfrig Siencyn (Cadeirydd Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru) ac Alwen Williams (Cyfarwyddwr Rhaglen Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru) i ddod i'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar becyn terfynol y fargen twf.